**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

23 Mawrth 2023

Annwyl Derek

Croeso i'ch rôl newydd fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roeddem yn falch o gael y cyfle i gyfarfod â chi fel rhan o'r broses cyn penodi ac roeddem yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol nodi rhagor o fanylion mewn perthynas â'r materion a godwyd gennym fel rhan o'r gwaith craffu hwnnw, wrth i chi ddechrau yn eich swydd newydd.

## Tryloywder

Argymhellwyd yn ein hadroddiad, er mwyn cynorthwyo tryloywder y berthynas rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru a chraffu arni, y dylech ystyried sut y mae busnes gyda Gweinidogion yn cael ei gynnal, gan gynnwys sut y caiff cyfarfodydd a negeseuon eu cofnodi a'u datgelu. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r canfyddiad bod gormod o amser ac adnoddau Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u neilltuo i helpu Llywodraeth Cymru i gymhwyso ei deddfwriaeth ei hun, a hynny ar draul cyrff cyhoeddus eraill. Mae hyn yn dyddio'n ôl i argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd flaenorol ddwy flynedd yn ôl.

Rydym am sicrhau bod cyrff cyhoeddus eraill yn gwella eu dealltwriaeth o berthnasedd y Ddeddf i'w gwaith, yn enwedig gan fod y sefyllfa gyllidebol heriol yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad gymhwyso'r Ddeddf i'r eithaf er mwyn sicrhau'r gwerth gorau. Hoffem awgrymu eich bod yn cyhoeddi crynodeb chwemisol o'r holl fusnes gyda Llywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys: dyddiad a hyd y cyfarfod, rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol; ei ddiben a'r pynciau y rhoddwyd sylw iddynt; a chrynodeb o unrhyw ohebiaeth ddilynol a/neu bwyntiau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod. Er cyd-destun, byddem yn gobeithio gweld rhywfaint o dystiolaeth bod o leiaf yr un amser yn cael ei neilltuo i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

Rydym yn cydnabod nad yw hyn yn ofyniad arferol i Gomisiynwyr Cymru, (nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn atebol i'r Pwyllgor hwn) a byddwn yn fwy na pharod i drafod sut rydym yn atal hyn rhag dod yn ymarfer rhy fiwrocrataidd neu feichus.

## Gweledigaeth a dull gweithredu

Yn ein hadroddiad, gwnaethom hefyd alw arnoch i nodi eich gweledigaeth gyffredinol a'ch dull o ymdrin â'r rôl yn y chwe mis cyntaf yn y swydd, yn ogystal â'r canlyniadau yr hoffech eu cyflawni yn ystod eich cyfnod yn y swydd a dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig. Byddem yn ddiolchgar petaech yn gallu cadarnhau eich cynlluniau yn hynny o beth, a byddwn yn croesawu'r cyfle i drafod y rhain â chi ymhellach maes o law.

Ymgysylltu yn y dyfodol

Roeddem yn ddiolchgar am y gwaith ymgysylltu adeiladol a gynigiwyd gan eich rhagflaenydd, ac edrychwn ymlaen at barhau â'n gwaith gyda chi a'ch swyddfa i'r un perwyl. Hoffwn eich gwahodd i gyfarfod ag aelodau o'r Pwyllgor yn anffurfiol rywbryd yn ystod tymor yr haf ac, os ydych yn gytûn, byddaf yn gofyn i'r Clerc gysylltu â'ch swyddfa i ddod o hyd i amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.